

Dathliad awyr agored canol wythnos o'r cynhaeaf

# Y Rhodd

at Amser y Cread 2012




Llun: Paneli haul ar yr Eglwys yn Uno yn Caloundra, Queensland, Awstralia

Llun fferm wynt: Chrishna

***Mae'r adnodd hwn yn addas i unrhyw gynulliad eciwmenaidd o oddeutu 20 i 30 o bobl. Fe'i hysbrydolwyd gan hen Ŵyl y Pebyll. Mae'n cysylltu ag Ailddychmygu'r Cynhaeaf, ffurf newydd ar wasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf ac achlysur with niwrnod posibl (rhan o adnoddau CTBI at Amser y Cread 2011).***
*Ysgrifennwyd gan y Parchg Ddr Chris Sunderland o EarthAbbey i Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon*

Dewiswch fan cyfarfod yn yr awyr agored a fydd yn hysbys i'ch pobl lle, o ddewis, y bydd amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwyllt.

Hysbysebwch y digwyddiad at oddeutu 5-6 yr hwyr ar noson waith addas ym mis Awst/Medi (o bosibl fel digwyddiad noson waith oddi mewn i ŵyl 8 niwrnod Ailddychmygu'r Cynhaeaf).

Bydd gwirfoddolwyr yn cyrraedd yn fuan, yn codi 'lloches' ac yn paratoi barbiciw.
Gellir gwneud y lloches o ddefnyddiau naturiol megis pren helyg, neu gall fod yn babell neu'n gasebo wedi'i haddurno â defnyddiau naturiol fel canghennau, ffrwythau, aeron etc. Does dim rhaid i'r lloches ddal pawb; gall fod yn symbol yn unig.

## Y digwyddiad

Cyneuir y barbiciw ymhell cyn i'r bobl gyrraedd, fel y bydd yn boeth i dderbyn bwyd ar yr amser dechrau. Daw pobl â bwyd i'r digwyddiad, ynghyd ag un 'rhodd' arbennig y maent wedi ei gwneud neu ei thyfu ac y byddant yn ei rhoi i rywun arall. (Gall y bydd o gymorth i'r trefnwyr fod â rhoddion dros ben wrth law i'w rhoi i bobl sydd wedi dod heb ddim.)

Tra bydd y bwyd yn cael ei goginio gwahoddir y bobl i **Rannu'r Rhodd** fel a ganlyn:

Cenir cerddoriaeth. Gorau oll os bydd yn fyw ac acwstig, ond heb eiriau. Mae'r bobl yn sefyll neu'n eistedd mewn cylch gyda'r rhoddion a ddaethant. Mae un yn dewis un arall i dderbyn y rhodd ac yn cerdded yn araf ato ar draws y cylch ac yn rhoi'r rhodd iddo. Mae'r derbynydd yn cymryd y rhodd ac yna'n rhoi ei rodd ei hun i rywun arall yn yr un modd. Wrth i bob un dderbyn ei rodd y mae'n gadael y cylch. Pery hyn nes bod yr holl roddion wedi'u rhoi (gall yr olaf roi ei rodd i'r cyntaf sy'n dychwelyd i'r cylch i'w dderbyn.)

## Wedi cwblhau'r rhoddi dywed yr arweinydd y weddi hon

*O Dduw, cyflwynwn y rhoddion hyn i'n gilydd yn arwydd o'th rodd fawr di i ni yn y cread. Diolchwn iti am yr haul sy'n codi'n ffyddlon bob dydd, am y glaw sy'n maethu'r pridd ac am gymhlethdod a phrydferthwch rhyfeddol y bywyd sy'n ein hamgylchynu ac yr ydym yn dibynnu arno. Diolch iti am bawb sy'n trin y tir, yn llafurio gyda thi fel y gallwn ni gyfranogi o'th oludoedd a chynnal ein cyrff. Cyflwynwn ein hunain, greaduriaid y ddaear, a luniwyd ar ddelw Duw, a gofynnwn heddiw am gael cofio bob amser dy raslonrwydd tuag atom. Amen.*



Ar derfyn hyn, fel y bo angen, gellir defnyddio darlleniad, cân neu weddïau eraill o ddiolchgarwch am y cread. Gellid wedyn gynnal dawnsio gwerin, os oes galwr ar gael, bwyta o'r barbiciw a gwneud un neu fwy o'r pethau a ganlyn:

- **Gweithio clai** – arbennig o addas er mwyn cynnwys plant. Gwahoddwch bobl i weithio clai ar thema'r cread; crëwch olygfa gyda'ch gilydd

- **Dweud storïau** – mae carfan o 5-6 o bobl yn symud i fangre arbennig a gwahoddir pob un i adrodd stori fer neu hanesyn ar 'pan oeddwn i'n 9 oed'

- **Cerddoriaeth** – os yn bosibl, gwahoddwch rywun sy'n canu offeryn acwstig i gyfrannu at y noson. Neilltuwch amser i bobl wrando ar y gerddoriaeth a'i gwerthfawrogi.

- **Mynd am dro i fyfyrio** – gwahoddwch bobl i gerdded ffiniau'r safle'n araf a distaw gan gymryd amser i edrych ar y byd naturiol a myfyrio arno. Awgrymwch y gall y bydd rhai am wneud hynny'n droednoeth er mwyn cysylltu â'r ddaear. Fe all y bydd yn beth priodol golchi traed ar y diwedd.

Gall y noson ddod i ben pan fydd hi'n nosi gyda'r bobl yn cydsefyll ac yn ymuno yn y weddi hon, sydd i'w dweud yn araf, a'r bobl yn symud fel y bo'n briodol i bob pennill.

## Gweddi'r Chwe Chyfeiriad

*Wynebwn y Dwyrain*
*Man codiad haul*
*Bywyd newydd yn ein calonnau*
*A gobaith at y dyfodol*

*Trown i'r De*
*At y golau*
*Sy'n cynhesu ein cartrefi*
*Ac yn rhoi maeth i'r planhigion*

*Trown i'r Gorllewin*
*Mangre'r machlud,*
*Yr hwyr*
*A chyfeillion yn dod ynghyd*

*Trown i'r Gogledd*
*At yr oerfel a'r rhew*
*Sy'n profi ein calonnau*
*Ac yn puro'r pridd*

*Plygwn i lawr i gyffwrdd â'r ddaear*
*Gan ddal yn ein dwylo*
*Y pridd*
*Y mae ei fywyd astrus yn ein cynnal*

*Dyrchafwn i'r awyr*
*Ein cri at Dduw*
*Creawdwr nefoedd a daear*
*Bydded tangnefedd*



## Darlleniad

Geir defnyddio'r darlleniad hwn os bydd angen:

Salm 65 adn 1a, 9-13 allan o'r *Beibl C ymraeg Newydd Diwygiedig, 2004*

*Mawl sy'n ddyledus i ti, O Dduw, yn Seion;*
*Rwyt yn gofalu am y ddaear ac yn ei dyfrhau,*
*gwnaethost hi'n doreithiog iawn;*
*y mae afon Duw'n llawn o ddŵr;*
*darperaist iddynt ŷd.*
*Fel hyn yr wyt yn trefnu ar ei chyfer:*
*dyfrhau ei rhychau, gwastatáu ei chefnau,*
*ei mwydo â chawodydd a bendithio'i chnwd.*
*Yr wyt yn coroni'r flwyddyn â'th ddaioni,*
*ac y mae dy lwybrau'n diferu gan fraster.*
*Y mae porfeydd yr anialdir yn diferu,*
*a'r bryniau wedi eu gwregysu â llawenydd;*
*y mae'r dolydd wedi eu gwisgo â defaid,*
*a'r dyffrynnoedd wedi eu gorchuddio ag ŷd.*
*Y maent yn bloeddio ac yn gorfoleddu.*

## Nodyn ar Hanes Gŵyl y Pebyll:

Daeth yr hen ŵyl Hebreig hon i fod yn un o'r tri achlysur mawr pan âi'r holl bobl i Jerwsalem i ddathlu. Mae'n debyg bod ei tharddiad yng nghynhaeaf y ffrwythau (fe'i gelwir hefyd yn ŵyl y Cynnull – gweler Exodus 23 adn 16) pan âi'r holl bobl allan i'r caeau i gydgynaeafu a gwersylla o dan gysgodfeydd. Yn ddiweddarach daeth i fod yn ŵyl i gofio hefyd am y crwydro yn yr anialwch (Lefiticus 23 adn 42-43) a darllenid y gyfraith ynddi (Deuteronomium 31 adn 10-13, Nehemieia 8). O ganlyniad, hi oedd gŵyl bwysicaf y flwyddyn. Mae'r dathliad hwn yn dwyn ar gof Ŵyl y Pebyll wrth godi lloches, rhannu bwyd a dathlu'r cynhaeaf.

## Adnoddau pellach

Y mae gweddïau a chaneuon eraill i'w cael ar www.ctbi.org.uk/creationtime ac adnoddau ychwanegol ar http://seasonofcreation.com .  Gweler hefyd yr adnodd cyflawn Re-imagining harvest.

churches together IN BRITAIN AND IRELAND